

DC/EM/00353/18: Nodyn Cyfarfod

25 Mehefin 2018, Swyddfa'r Gweinidog, Tŷ Hywel

Yn bresennol:

Eluned Morgan AC (Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes)

[Enw Swyddog] (Tîm Bil y Gymraeg)

[Enw Swyddog] (Tîm Bil y Gymraeg)

Meri Huws (Comisiynydd y Gymraeg)

[Enw Swyddog] (Cyfarwyddwr Strategol - Comisiynydd y Gymraeg)

1. Materion yn dilyn datganiad y Gweinidog ar 5 Mehefin:

Rhaglen Safonau (llythyr y Comisiynydd dyddiedig 6 Mehefin)

Cyfeiriodd y Comisiynydd at lythyr anfonodd hi ar y Gweinidog yn gynharach yn y mis yn gofyn am gadarnhad o fwriadau'r Llywodraeth o ran parhau i wneud Rheoliadau i ddod a mwy o gyrff o dan y drefn safonau. Yn benodol gofynnodd y Comisiynydd am gadarnhad o ran y Rheoleiddwyr Iechyd a'r Cwmnïau Dwr gan fod hi'n ymwybodol bod Rheoliadau wedi cael eu paratoi yn rhannol ar gyfer y cyrff yma.

Dyweddodd y Gweinidog, yn unol â'r datganiad ar 5 Mehefin, nad oedd hi'n bwriadu cyflwyno Rheoliadau i ddod a mwy o gyrff o dan y drefn safonau am y tro. Hynny oherwydd mai'r Bil oedd y flaenoriaeth ac y byddai cyflwyno offerynnau statudol pellach yn y Cynulliad yn cyfeirio adnoddau polisi oddi wrth y Bil gan gynyddu'r risg i amserlen y Bil.

Diweddariad ar broses penodi'r Comisiynydd

Dyweddodd y Gweinidog byddai proses penodi'r Comisiynydd newydd yn dechrau diwedd yr wythnos - mae disgwyl i'r pecyn ymgeisio cael ei gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth Dydd Gwener 28 Mehefin. Cadarnhaodd y Gweinidog byddai hysbyseb yn cael ei gyhoeddi yng nghylchgrawn Golwg ac ar-lein.

Gofynnodd y Comisiynydd os fyddai modd gadael iddi wybod ymlaen llaw pwy sydd ar y panel penodi. Dywedodd y Gweinidog byddai'r wybodaeth honno yn gyhoeddus yn y pecyn gwybodaeth ac y byddai swyddogion yn cysylltu â hi tuag at ddiwedd yr wythnos i gadarnhau hynny, ond ni fyddai modd rhannu'r ddogfennaeth cyn i'r broses gyhoeddus agor.

Diweddariad ar y Bil

Nododd y Gweinidog bod y Prif Weinidog dal i ystyried amserlen y Rhaglen Ddeddfwriaethol ac y byddai datganiad yn cael ei wneud yn y Senedd cyn toriad yr haf.

Dyweddodd y Gweinidog bod y gwaith datblygu polisi ar y Bil yn parhau.

2. Trefniadau llety'r Comisiynydd

Gofynnodd y Gweinidog i'r Comisiynydd am ddiweddariad am sefyllfa'r ystâd.

Nododd y Comisiynydd bod ganddi swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caernarfon, Caerfyrddin a Rhuthun. Mae mwyafrif helaeth y staff wedi'u lleoli rhwng Caerdydd a Caernarfon. Cytunwyd les swyddfa Caernarfon llynedd - les 10 mlynedd gyda thoriad ar ôl 5 mlynedd.

Mae les swyddfa Caerdydd yn dod i ben diwedd 2018. Mae'r Comisiynydd wedi bod yn trafod gyda pherchennog newydd yr adeilad ac yn ffafrio arwyddo les newydd i aros yn yr un adeilad.

Dyweddodd y Gweinidog bod angen i'r Comisiynydd gael cyngor proffesiynol oddi wrth swyddogion ystâd y Llywodraeth cyn arwyddo les newydd gan ofyn i'r Comisiynydd gysylltu â [*Enw Swyddog*]. Nododd bod hi'n bwysig bod y Llywodraeth yn cadw gorolwg ar swyddfeydd cyrff sy'n cael eu hariannu.

3. Safonau cyrff iechyd (diweddariad am yr amserlen i osod Safonau)

Cyflwynwyd diweddariad gan y Comisiynydd. Mae swyddogion y Comisiynydd sy'n arwain ar osod safonau wedi cynnal sesiynau briffio gyda'r cyrff sy'n destun i'r safonau fel grŵp. Maent hefyd wedi cynnal cyfarfodydd unigol gyda 17 o'r 19 corff ac mae'r cyfarfodydd gyda'r 2 gorff sy'n weddill i ddigwydd yn yr wythnosau nesaf.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio tuag at yr amserlen ganlynol:

- Gorffennaf: Cyrff i dderbyn hysbysiadau cydymffurfio drafft.
- Medi/Hydref: Cyrff yn ymateb i'r hysbysiad drafft, trafodaethau gyda'r cyrff.
- Tachwedd: Cyrff i dderbyn hysbysiadau cydymffurfio terfynol
- Mai 2019: Safonau mewn grym – cyrff i ddechrau cydymffurfio

Nododd y Comisiynydd ei bod hi'n cael cyfarfydd reolaidd gydag Adran Iechyd Llywodraeth Cymru i'w cadw yn y darlun.

4. Cod Ymarfer (Comisiynydd i ddiweddarau)

Dyweddodd y Comisiynydd bod yr ymgynghoriad ar Cod Ymarfer ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 bellach wedi dod i ben a bod swyddogion yn gweithio ar ddiwygio'r ddogfen. Nododd mai canllaw ymarferol yw'r ddogfen i roi cyngor ar sut i gydymffurfio â safonau.

Dyweddod y Comisiynydd bod cynnwys y ddogfen yn seiliedig ar brofiad y cyrff ers iddynt orfod cydymffurfio gyda'r safonau a bod hi'n cymryd amser i swyddogion y Comisiynydd i weld beth yw'r cyngor mwyaf effeithio i roi. Yn ogystal, nododd y Comisiynydd bod penderfyniadau'r Tribiwnlys yn gallu effeithio ar gynnwys Codau Ymarfer a bod hi wedi aros i'r Tribiwnlys wneud rhai penderfyniadau cyn cyhoeddi. Dywedodd y Comisiynydd yn ogystal ei bod hi wedi blaenoriaethu gosod safonau ar y 120 o gyrff dros baratoi codau ymarfer.

5. Adroddiad Sicrwydd (Comisiynydd i ddiweddar)

Nododd y Comisiynydd bydd yr Adroddiad Sicrwydd nesaf yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau wythnos yr Eisteddfod, ac mae prif ffocws yr Adroddiad fydd profiad defnyddwyr o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Dywedodd y Comisiynydd hefyd y byddai mwy o enghreifftiau o arfer dda yn yr Adroddiad eleni o gymharu â llynedd.

Dyweddod y Gweinidog bod angen mwy o wybodaeth gadarn ar y Llywodraeth ar faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud o wasanaethau Cymraeg. Nododd y Comisiynydd y byddai peth data ar ddefnydd yn yr Adroddiad ond byddai'n ddata ansoddol yn hytrach na meintiol.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddio

Cadarnhaodd y Comisiynydd bod y gwaith o gasglu data yn mynd yn ei flaen yn unol â chais y Gweinidog ac y bydd y data yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y mis.